**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**15 Gorffennaf 2013**

**ADRODDIAD MONITRO YR IAITH GYMRAEG**

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

**Diben yr Adroddiad**

1 Ceisio cymeradwyaeth i Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2012-13 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg.

**Y Cefndir**

2 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru lunio adroddiad manwl sydd yn nodi'r cynnydd a wnaed i gwrdd â'r targedau a amlinellir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth. Yn y gorffennol roedd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w gymeradwyo, ond erbyn hyn caiff yr adroddiad ei gyflwyno i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn unol â'r trefniadau newydd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**Gwybodaeth**

3 Mae dyfodiad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi arwain at fwy o bwyslais ar hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy Gymru, a hynny drwy godi ymwybyddiaeth am statws swyddogol yr iaith a gwella safonau er mwyn sicrhau cysondeb drwy Gymru. Croesawyd hyn gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a bydd y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn parhau i weithio gyda'i gilydd i ymateb i rwymedigaethau sy'n gysylltiedig â dyfodiad y Safonau Iaith newydd.

4 Y llynedd, derbyniodd adroddiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ymateb cadarnhaol gan Gomisiynydd y Gymraeg, a chroesawyd rhai agweddau penodol ar yr agweddau, gan gynnwys recriwtio Hyrwyddwyr y Gymraeg, cydnabod llwyddiant staff yn dysgu Cymraeg, a buddsoddi mewn hyfforddiant a gwasanaethau cyfieithu. Nodwyd cynnydd y gwasanaeth wrth weithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg ar gyfer 2010-13.

5 Unwaith eto, dyma gyfnod pryd y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi sicrhau cryn gynnydd mewn perthynas â'r Gymraeg. Yn ddiweddar, cydnabuwyd ei waith yn hyrwyddo'r Gymraeg pan enillodd un o Wobrau Ysbrydoli Cymru yng nghategori Cymraeg yn y Gweithle – roedd ymhlith tri sefydliad ar y rhestr fer ar gyfer y wobr, a datgelwyd enw'r enillydd mewn seremoni gyflwyno yng Nghaerdydd ar 18$^{fed}$ Mehefin 2013. Dyma hefyd yr ail flwyddyn yn olynol pryd yr oedd y Gwasanaeth ar y rhestr fer.

6 Mae Adroddiadau Monitro blaenorol wedi nodi sut y mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi cymryd rhan yn yr ymgyrch 'Mae Gen Ti Ddewis', ymgyrch a gefnogid gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a hynny i hyrwyddo'r ffaith fod Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd llwyddiant yr ymgyrch yn golygu bod nifer y trigolion yng Ngogledd Cymru a oedd yn derbyn archwiliadau diogelwch tân yn y cartref drwy gyfrwng y Gymraeg wedi codi o 6% i 20% mewn cyfnod o dair blynedd. Yn y flwyddyn ddiwethaf, bu gostyngiad bychan yn y niferoedd, a bellach maent yn amrywio rhwng 14% - 20% ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Mae'r Gwasanaeth yn dal wedi ymrwymo i hyrwyddo'r archwiliadau hyn yn y ddwy iaith, ac mae'r ymgyrch yn cael ei hail-lansio yn yr haf gyda'r nod o hyrwyddo'r gwasanaeth dwyieithog hwn yn fewnol ymhlith ein staff sy'n darparu'r archwiliadau, yn ogystal ag yn allanol ymhlith ein cymunedau.

7 Mae Cynllun Iaith Gymraeg GTAGC yn datgan bod gofyn i bob aelod newydd o'r staff, a'r rhai sy'n llwyddo i gael dyrchafiad, i ddysgu Cymraeg sgyrsiol sylfaenol ar safon Lefel 2 yn ein rhaglen CD, ac mae hyn hefyd wedi parhau i gael ei hyrwyddo ymhlith staff yn ystod 2012-13. Cynhyrchwyd CD pellach, ar Lefel 3, fel estyniad i'r rhaglenni dysgu presennol ac i ymateb i nifer y staff

sydd wedi dangos diddordeb mewn datblygu eu sgiliau iaith ymhellach ar ôl cwblhau'r hyfforddiant Lefel 2. Cafodd hwn ei addasu o'r cwrs Lefel 3 a gynhyrchwyd gan Heddlu Gogledd Cymru, ac rydym yn ddiolchgar iddynt am adael inni addasu cynnwys y cwrs. Mae pedwar o'n staff ni ein hunain ar y CD, ynghyd â chyflwyniad dwyieithog gan y Prif Swyddog Tân. Caiff ei lansio yn hwyrach eleni.

8 Mae'r Adroddiad Monitro hefyd yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed wrth hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle yn ogystal â darparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys canfod a chefnogi Hyrwyddwyr y Gymraeg yn y rhanbarth. Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Gwasanaeth wedi recriwtio Hyrwyddwyr ychwanegol, ac erbyn hyn mae ganddo 27 o unigolion yn y rôl sy'n parhau i fentora eraill ac i dderbyn arweiniad a chymorth wrth iddynt hyrwyddo'r iaith a hwyluso dysgu.

9 Mae data yn ymwneud â sgiliau a dysgu Cymraeg yn cael ei gasglu a'i gofnodi yn y gronfa ddata AD sydd gan y Gwasanaeth. Mae'r gronfa ddata yn parhau i gael ei datblygu i gynnwys gwybodaeth hunanasesol gan y staff am eu sgiliau Cymraeg, asesiad ffurfiol yn Lefelau 1-5, cyrhaeddiad yn sgiliau cwrteisi Lefelau 1, 2 a 3, achrediad mewn hyfforddiant iaith Gymraeg, yn ogystal â'r sgiliau sy'n ofynnol yn ôl swyddi ac sy'n cael eu diffinio mewn swydd-ddisgrifiadau. Mae'r data a gofnodwyd yn 2012-13 ar gael yn yr Adroddiad Monitro, ac mae'n rhoi crynodeb o'r prif ganfyddiadau gan nodi'r canlyniadau cadarnhaol a'r heriau parhaus y bydd y Gwasanaeth yn mynd ar eu holau eto yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn ceisio gwella.

10 Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod wedi ymrwymo i hyrwyddo'r iaith ac i annog datblygiad sgiliau Cymraeg ymhlith ei staff. Mae'r gwaith hwn yn sicrhau bod gwasanaethau dwyieithog yn cael eu darparu i bobl Gogledd Cymru, ac mae'n annog y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

**Argymhelliad**

11 Bod yr Aelodau'n nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg, ac yn cymeradwyo Adroddiad Monitro 2012-13 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg.